



Telerau ac Amodau Archebu 2018

Darllenwch Yn Ofalus Os Gwelwch Yn Dda

NWYDDAU

1. Nwyddau sydd wedi cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y rheolwyr yn unig y dylid gwerthu.
2. Dim ond cynnyrch organig ardystiedig all gael eu masnachu o dan y label "organig".
3. Dim ond y nwyddau hynny a nodir ar y ffurflen gais y gellir eu harddangos i gael eu gwerthu ar eich stondin. Bydd gofyn i chi i gael gwared ar unrhyw nwyddau ychwanegol.
4. Gwaharddir gwerthu nwyddau ffug.

CEISIADAU

5. Rhaid cyflwyno pob cais ar Ffurflen Gais Ffair Nadolig 2018, ynghyd â blaendal o £100. Nid yw ceisiadau dros y ffôn yn dderbyniol.
6. Mae holl gostau stondin masnachwyr sy'n mynychu yn ad-daladwy, yn amodol ar ffi weinyddol o £80, ond dim ond os byddwch yn canslo cyn 1 Hydref.
7. Y Pwyllgor sydd yn penderfynu ar leoliad a chlustnodi'r stondinau gan ddefnyddio ein meini prawf dethol. Caiff y dyraniad terfynol ei gynllunio er budd cyffredinol y farchnad. Nid oes modd trafod y mater. Caiff stondinau eu clustnodi ar sail y cyntaf i'r felin. Mae gan y rheolwyr yr hawl i newid lleoliad y stondin os ydynt yn teimlo bod angen.
8. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth eich bod wedi talu, a derbynneb am yr arian a anfonwyd o fewn 28 diwrnod, cysylltwch â ni.
9. Ni ddylid is-osod stondin sydd wedi'i archebu o dan unrhyw amgylchiadau.
10. Bydd ceisiadau gan fasnachwyr yn cael eu derbyn yn amodol ar archwiliad cefndir, a bod gofod ar gael ar gyfer y stondinau.
11. Rhaid talu'r holl falensau yn llawn erbyn 31 Awst.

CANSLO

12. Os na fyddwch yn mynychu digwyddiad heb ganslo ymlaen llaw, caiff pob archeb yn y dyfodol ei ganslo heb ad-daliad nes bydd y gweddill sy'n ddyledus yn cael ei dalu'n llawn.
13. Os caiff digwyddiad ei ganslo, ei ymyrryd neu ei gwtogi oherwydd digwyddiad y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, ni fydd y trefnwyr yn atebol i wneud yn iawn am unrhyw golled gan unrhyw barti sydd â stondin yn y farchnad.

MASNACHU

14. Bydd cyfanswm dimensiynau'r stondinau yn amrywio o ran maint. Cewch ddefnyddio cyfanswm arwynebedd y stondin mewn unrhyw fodd y dymunwch i arddangos, a gallwch ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer eich gwaith.
15. Mae'n rhaid i unrhyw eitemau ychwanegol sydd ar ddangos gael eu lleoli o fewn arwynebedd y stondin ac ni ddylai rwystru eich mynediad chi na llwybrau i gerddwyr.
16. Rhaid i'r holl sbwriel gael eu rhoi mewn bagiau bin neu flychau, rhaid clymu'r bag a'i adael yn yr ardal ddynodedig. Gofynnwch i reolwr y digwyddiad am fanylion.
17. Rhaid i bob masnachwr gydymffurfio â Diogelwch Bwyd (Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol 1995, a darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990).
18. Bydd masnachwyr yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth, hysbysiadau, gorchmynion, disgrisiwn, is-ddeddfau presennol ac yn y dyfodol gan bob Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol neu Asiantau neu gyrrff eraill sydd â phwerau statudol, a rhaid iddynt gydymffurfio â'r holl gyfyngiadau, cyfarwyddiadau ac amodau a osodwyd yn gyfreithlon gan unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â phŵer statudol.
19. Rhaid i fasnachwyr roi copi o'r holl ardystiadau perthnasol ynghylch Hylendid Bwyd ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i Bartneriaeth Datblygu Llandudno.
20. Fe gynghorir masnachwyr y cymerir camau gorfodi i atal a chael gwared ar nwyddau ffug ac anghyfreithlon o'r Ffair, yn ogystal â'r masnachwyr sy'n eu gwerthu.
21. Caiff ffioedd y stondinau eu gosod gan bwyllgor y digwyddiad, a'r pwyllgor sydd i benderfynu ar unrhyw gynnydd i'r rhain heb unrhyw rybudd ymlaen llaw i'r masnachwyr.
22. Rhaid i fasnachwyr gydymffurfio â phob cyfarwyddyd rhesymol gan reolwr y digwyddiad ar gyfer rheoli, rheolaeth a chynnal y ffair.
23. Nid yw pwyllgor y Ffair yn gwarantu nac yn cytuno i fodloni disgwyliadau'r masnachwyr o ran incwm. Os bydd incwm yn cael ei effeithio am unrhyw reswm, nid fydd y trefnwyr yn gwneud yn iawn am unrhyw ddisgwyliadau ar ran y masnachwyr.
24. Bydd masnachwyr yn cytuno i, ac yn cadw at amseroedd a osodir gan reolwyr y digwyddiad er mwyn i gerbydau gael mynediad i lwytho a dadlwytho.
25. Ni chaniateir i chi ddrilio drwy waliau'r cabanau.
26. Rhaid i bob masnachwr bwyd osod matiau ar lawr eu stondinau. Disgwylir y bydd addaliad yn cael ei dalu i bwyllgor y Ffair am unrhyw farciau parhaol y mae'r masnachwr yn eu gadael ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben er mwyn talu am gostau glanhau ychwanegol.
27. Mae'n rhaid i bob masnachwr bwyd ddilyn safonau bwyd a rheoliadau hylendid.
28. Mae'n rhaid i bob masnachwr bwyd ddangos fod ganddynt gyfleusterau golchi dwylo poeth ac oer ar ddechrau pob diwrnod masnachu a thrwy gydol y digwyddiad.
29. Mae'n rhaid i bob masnachwr bwyd fod â chyfleusterau storio ar gyfer dŵr budr, braster ac olew (rhaid i bob cynhwysydd gael eu labelu'n glir).
30. Rhaid i bob masnachwr bwyd sicrhau bod yr holl fwyd yn cael ei ddiogelu yn gyfan gwbl gan wydr neu Perspex tryloyw.
31. Mae'n rhaid i bob masnachwr labelu eu cynnyrch yn glir yn ôl cyfarwyddiadau'r safonau masnach.

RHEOLIADAU DEFNYDDWYR

32. Mae'n rhaid i holl ddodrefn sydd wedi'i glustogi, gan gynnwys clustogau ac ati gael eu labelu'n gywir a chydymffurfio â holl reolau tân cyfredol i ddefnyddwyr.
33. Rhaid i deganau gael eu marcio â CE

STONDINAU AC ARDDANGOSFEYDD

34. NI DDYLAI pecynnau sy'n cael eu storio fod yn weladwy i'r cyhoedd.
35. Rhaid i bob stondin gael eu haddurno'n Nadoligaidd ar gyfer y digwyddiad mewn modd priodol. Bydd stondinau yn cael eu harchwilio gan drefnwyr y Ffair ar y diwrnod masnachu cyntaf.
36. RHAID i fasnachwyr arddangos enw eu busnes a chopi o'u hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrif hylendid bwyd yn ôl yr angen.
37. Mae'n rhaid i fasnachwyr ddangos eu prisiau'n glir mewn fformat syml ac mewn maint sy'n hawdd i'w ddarllen.
38. Rhaid i fasnachwyr sy'n gwerthu cig yn arddangos eu cynnyrch mewn cabinet oer.
39. Dylid trafod unrhyw ofynion arbennig gyda'r trefnwyr cyn ymgeisio a dylech nodi eich gofynion ar eich ffurflen gais.
40. Gwaharddir deunyddiau fflamadwy, ffrwydrol neu beryglus o'r Ffair.
41. Rhaid i fasnachwyr sy'n gwerthu bwyd poeth fod ag offer diogelwch tân priodol o fewn y dyddiad ar y safle yn ystod y cyfnod gosod y stondin, yn ystod y Ffair ei hun, ac wrth ddatgysylltu'r stondin. Rhaid i ddiffoddyddion tân fod yn weladwy bob amser a dylai fod o fewn eu dyddiad gwasanaeth. Os bydd unrhyw ran o'r offer yma yn annigonol, rydych mewn perygl o golli eich caniatâd i fasnachu, ac os mai dyma'r achos, ni fyddwch yn atebol am ad-daliad.
42. Rhaid i unrhyw offer coginio neu arwynebau poeth eraill gael eu lleoli yn stondin y masnachwr a rhaid iddo gael ei amgáu gan rwystrau addas i atal y cyhoedd rhag ei gyffwrdd yn ddamweiniol.
43. Mae'n RHAID i bob masnachwr ar y safle feddu ar focs cymorth cyntaf sy'n addas i'w ddiben. Disgwylir i fasnachwyr bwyd yn arbennig gadw plastars priodol ac ati.
44. Gwnewch yn siŵr bod eich ardal yn cael ei chadw'n lân a thaclus yn ystod y digwyddiad, a bod eich ardal yn lân a bod llanast wedi cael ei daflu'n addas ar ddiwedd y diwrnod.
45. Masnachwyr sydd yn gyfrifol am benderfynu a ydi'r offer a ddarperir (byrddau/stondinau) yn addas ar gyfer y nwyddau a ddangosir. Dylid tynnu sylw rheolwr y digwyddiad at unrhyw namau a ddarganfuwyd gyda'r offer a ddarperir yn syth, a'r rheolwr sydd â'r hawl i'w dynnu yn ôl.
46. Rhaid i bob stondin fod ar agor drwy gydol y digwyddiad yn ddieithriad, oni bai y rhoddir caniatâd fel arall gan reolwyr y digwyddiad.
47. Mae'n rhaid i'r holl stondinau fod yn barod o leiaf 1 awr cyn i'r Ffair agor i'r cyhoedd ddydd Iau am 10.00am. Ni ddylai masnachwyr ddatgysylltu neu dynnu unrhyw ran o'u stondin i lawr hyd nes i'r digwyddiad ddod i ben am 5pm ar ddydd Sul.
48. Bydd unrhyw stondin sy'n cael eu gadael heb oruchwyliaeth ac sydd ar gau ar unrhyw adeg drwy gydol y digwyddiad yn cael ei gau i lawr a'u symud, ac NI THELIR unrhyw ad-daliad.
49. Rhaid i'r stondinau fod ar agor bob dydd, drwy'r adeg, ac mae'r rheolwr wedi egluro hyn i'r holl fasnachwyr.
50. Mae'n rhaid i bob masnachwr ddilyn yr holl wybodaeth lechyd a Diogelwch gan gynnwys defnyddio offer trydan a nwy ac unrhyw ddefnydd offer arall tra'n masnachu ar y farchnad.
51. Ni roddir caniatâd i unrhyw fasnachwr sydd ddim yn cadw at y rheolau neu sy'n gweithio mewn modd annigonol neu berygl fasnachu, ac ni fyddant yn atebol i gael ad-daliad.
52. Bydd bandiau arddwrn yn cael eu rhoi i fasnachwyr a dylid eu gwisgo drwy gydol y digwyddiad, neu fel arall bydd swyddogion diogelwch yn gofyn i chi adael. Nid yw bandiau arddwrn yn drosglwyddadwy.

TRYDAN

53. Rhaid i fasnachwyr roi dogfennau prawf PAT ar gyfer yr holl eitemau trydanol a fydd yn cael eu cynnal ar y safle i Bartneriaeth Datblygu Llandudno.
54. Mae'n RHAID nodi'r cyflenwad trydan rydych ei angen ar y ffurflen gais, a rhaid i reolwyr y Ffair gytuno ar hyn ymlaen llaw, ynghyd â'r ffi gywir.
55. Tra'n masnachu yn y digwyddiad awyr agored, bydd yn anochel y bydd generaduron trydan yn cael eu ddefnyddio er mwyn cyflenwi trydan. Bydd y generaduron a fydd yn cael eu defnyddio yn rhai tawel iawn gyda lefelau sŵn llai na 90dB. Efallai y bydd mwg achlysurol pan fydd generaduron yn cael eu cychwyn a phosiblwydd o arogl disel. Ni dderbynnir unrhyw hawliadau gan fasnachwyr sy'n cael eu lleoli yn ymyl generaduron.
56. Bydd eitemau trydanol yn destun caniatâd ein contractwr ac yn unol â'ch gofynion trydanol fel y nodwyd ar eich ffurflen gais.
57. Os bydd unrhyw broblem gyda chynhyrchu trydan ar y safle drwy gydol y digwyddiad, ni fydd Partneriaeth Datblygu Llandudno yn atebol am unrhyw golled i fusnes.

ATEBOLRWYDD

58. Er mwyn cydymffurfio â "Deddf Trydan yn y Gweithle 1989" – rhaid i'r holl offer trydanol, gan gynnwys ffitiadau golau, estyniadau, gwifrau a theclynnau gael eu profi am ddiogelwch trydanol a rhaid cael tystysgrif cydymffurfiaeth. Os bydd arolygydd yn mynychu digwyddiad ac yn dod o hyd i unrhyw offer trydanol sydd heb ei ardystio mae ganddo/ganddi yr hawl i atal yr offer trydanol hwnnw rhag cael ei ddefnyddio. Cyfrifoldeb y masnachwr yw sicrhau bod offer yn cael ei brofi a'i ardystio'n flynyddol.
59. Bydd y masnachwr yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir i ffabrig unrhyw standin, safle neu offer a fenthycwyd neu anaf i unigolion arall, o ganlyniad i'w hesgeulustod.
60. Rhaid i unrhyw gyfarpar y mae'r masnachwr yn dod gyda nhw i'w ddefnyddio ar y safle fod yn ddiogel ac yn cael ei ystyried yn addas i'w ddiben.
61. Ni fydd y trefnwyr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion, lladradau, iawndal sut bynnag y'u hachoswyd i unrhyw standinwr, neu was iddo, nac i unrhyw eitem neu eiddo a ddygwyd i mewn i'r Ffair neu tra dygid hwynt i mewn / allan o'r sioe neu am unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir ar ran, neu gan, y cyhoedd neu gyrff eraill.
62. Ni all y trefnwyr fod yn gyfrifol am les standinwyr neu bersonau wrth iddynt deithio i'r digwyddiad neu yn ystod y digwyddiad. Rhaid i bob masnachwr gael eu hyswiriant eu hunain ar gyfer Atebolrwydd Cyhoeddus ac fe'u cynghorir yn gryf hefyd i dalu am les eu hunain a'r stoc tra'u bod yn y farchnad ac wrth deithio.
63. Ni chaniateir ddosbarthu taflenni neu ddogfennau eraill ar ran unigolion neu ddigwyddiadau nad ydynt yn fasnachwyr yn y Ffair.
64. Mae pwyllgor y Ffair yn cadw'r hawl i gyfnewid, hepgor neu newid unrhyw fanylion am y Ffair, amodau archebu a gweithdrefnau heb rybudd.
65. Ni fydd Pwyllgor y Ffair yn atebol am ddifrod i stoc a/neu offer atodol a ddefnyddir gan y masnachwr sydd wedi cael ei ddifrodi oherwydd tywydd gwael.

Rwyf i _____ wedi darllen y
telerau ac amodau ac yn cytuno â hwy

Llofnod: _____

Dyddiad: _____